# ADNEWYDDU EICH DBS
# A'R GWASANAETH DIWEDDARU:

## Gofynnir i ni yn aml …

### Ydw i'n gallu ddefnyddio tystysgrif DBS sydd gen i o rôl arall?

**"Rwy'n athro – ac wedi gwneud DBS ar gyfer gwaith, oes angen i mi wneud gwiriad arall ar gyfer fy rôl yn yr eglwys hefyd?"**

***"Wel mae'n dibynnu. Oni bai eich bod wedi cofrestru gyda gwasanaeth diweddaru y DBS, mae'r un rheol ag o'r blaen yn bodoli. Mae angen gwiriad DBS ar gyfer pob sefydliad rydych chi'n gweithio / gwirfoddoli iddo."***

Mae llawer o bobl yn credu erbyn hyn bod un dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn iawn ar gyfer yr holl waith y maent yn ei wneud gyda grwpiau agored i niwed ac ni fydd angen iddynt byth wneud un arall. Yn anffodus, nid yw hyn yn hollol gywir. Nid yw tystysgrif DBS yn gludadwy'n awtomatig ond, ers 2013, mae wedi bod yn bosibl ailddefnyddio tystysgrif os yw'r ymgeisydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru y DBS o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn tystysgrif newydd neu, mae'n bosibl i ymuno wrth wneud cais digidol DBS.

Er mwyn ailddefnyddio eich tystysgrif bresennol ar gyfer eich gwaith eglwysig, mae angen i chi fod eisoes wedi cofrestru ar-lein gyda'r Gwasanaeth Diweddaru. Bydd angen i'r Panel weld y dystysgrif wreiddiol, derbyn eich caniatâd ysgrifenedig, a sicrhau bod gwiriwr y Panel neu arweinydd eich eglwys wedi gwirio eich hunaniaeth. **Bydd y ffurflen hon yn eich arwain trwy'r broses.**

Felly, os ydych wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth diweddaru DBS ac mae'n 4 blynedd ers eich gwiriad diwethaf gyda'r Panel, gallwch gwneud adnewyddiad yn gyflym heb fod angen ffurflen DBS newydd. Gallwn fel arfer wirio'ch DBS ar-lein mewn ychydig funudau.

Bydd y DBS yn cysylltu â thanysgrifwyr i'r Gwasanaeth Diweddaru bob blwyddyn i gadarnhau bod angen y gwasanaeth arnynt o hyd. Mae'r gwasanaeth **am ddim i wirfoddolwyr** ond mae yna ffi o **£16 y flwyddyn i rai cyflogedig.**

**SYLWER:**

**Os yw eich tanysgrifiad gwasanaeth diweddaru wedi dod i ben, os ydych wedi colli eich tystysgrif wreiddiol, neu os nad yw'r rôl eglwysig ar yr un lefel neu grŵp â'r dystysgrif wreiddiol, efallai y bydd angen lenwi ffurflen newydd.**

**DYLID GWNEUD DBS BOB 4 BLYNEDD.**

Os nad ydych chi'n siŵr pryd fydd angen adnewyddu eich tystysgrif, bydd cydlynydd diogelu eich eglwys neu'r ysgrifennydd yn gallu dweud wrthych. Os nad ydych wedi cofrestru gyda gwasaneth diweddaru bydd angen gwneud cais newydd bob bob 4 blynedd.

1. **Darllenwch ein taflen wybodaeth am fwy o fanylion.**
2. **Cwblhewch y ffurflen hon a'i hanfon at swyddfa'r Panel gyda'ch tystysgrif wreiddiol i adnewyddu eich DBS gan trwy'r gwasanaeth diweddaru.**
3. **neu cysylltwch â ni.**

1 Vale Parc, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy Industrial Estate, Denbigh, LL16 5TA
☎ 01745 817584 / 07957510346 post@panel.cymru https://panel.cymru
Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel